

Uchafbwyntiau  
Cymru  
2020/21

## UCHAFBWyNTIAU CYMRU 2020/21

# Gweithio dros Gymru

Mae Ystâd y Goron yn rheoli asedau morol a thir yng Nghymru. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r uchafbwyntiau a'r prif ddatblygiadau am y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021. Mae mwy o wybodaeth ar ein gweithgareddau yng Nghymru a sut y cyflawnwn ein dyletswydd dan Ddeddf Amgylchedd (Cymru) 2016 Rhan 1 - Adran 6 i warchod yr amgylchedd naturiol ar gael ar-lein yn ein Hadroddiad Bioamrywiaeth a Chadernid Ecosystemau 2019 yn: [thecrownestate.co.uk/biodiversity-report-wales-welsh](http://thecrownestate.co.uk/biodiversity-report-wales-welsh)

Mae ein strategaeth newydd, a'n hymrwymiad i fod yn fusnes sero-net carbon erbyn 2030, yn cydnabod pwysigrwydd bioamrywiaeth. Ein hamcan yw buddsoddi i gefnogi rôl hanfodol bioamrywiaeth mewn darparu gwasanaethau ecosystem drwy greu, gwarchod, adfer a gwella cynefinoedd naturiol ar dir ac yn y môr. Bydd ein cyfraniad at agenda'r Deyrnas Unedig ar fioamrywiaeth yn elfen bwysig yn y gwerth Amgylcheddol a gyflawnwn fel rhan o'n Fframwaith Creu Gwerth newydd. Mae mwy o fanylion ar strategaeth y Grŵp a'r Fframwaith Creu Gwerth ar gael ar dudalennau 12-15 ein Hadroddiad Blynyddol diweddaraf ar-lein yn: [thecrownestate.co.uk/Annual-Report-2021](http://thecrownestate.co.uk/Annual-Report-2021)

Mae ein llwyddiant hirdymor yn dibynnu ar ein perthynas gyda'n holl randdeiliaid, o'n cwsmeriaid a phartneriaid hyd at y cymunedau a wasanaethwn. Anelwn ddefnyddio dull partneriaeth yn y perthnasoedd hyn i sicrhau'r canlyniadau gorau i bawb. Mae meithrin perthnasoedd cydweithio cryf hefyd yn ganolog i ddeall anghenion ein rhanddeiliaid.

Bu blwyddyn ariannol 2020/21 yn flwyddyn a ddomyddwyd gan COVID-19. Rydym yn ymwybodol iawn o'r pwysau a roddodd y pandemig ar ein rhanddeiliaid a chymdeithas yn gyffredinol ac am yr heriau economaidd dilynol sy'n parhau i wynebu rhai o'n cwsmeriaid a'n gweithrediadau yng Nghymru. Ein hymagwedd fu cynnal dialog gyda'n cwsmeriaid a phartneriaid yn ystod y cyfnod anodd hwn er mwyn helpu llywio'r heriau gweithredol a achoswyd gan y pandemig.

Mae cyfrif mwy manwl o'n hymateb gweithredol ar draws y Deyrnas Unedig yng nghyswllt ein cwsmeriaid a rhanddeiliaid ar gael ar dudalen 36 ein Hadroddiad Blynyddol diweddaraf ar-lein yn: [thecrownestate.co.uk/Annual-Report-2021](http://thecrownestate.co.uk/Annual-Report-2021)

### Meysydd cyfrifoldeb

Mae ein cyfrifoldebau yng Nghymru yn cynnwys gwely'r môr hyd at 12 milltir forol. Mae ein buddiannau felly yn cynnwys ynni adnewyddadwy, ein gweithgaredd mwyaf sylweddol yng Nghymru, pibellau olew a nwy, codi agregau morol, telegyfathrebu a cheblau pŵer. Yn ychwanegol, mae gennym hawliau i'r adnoddau ar y silff gyfandirol, megis adnoddau naturiol ac ynni ar y môr, ond yn eithrio tanwyddau ffosil. Rydym hefyd yn rheoli tua 65 y cant o flaendraeth a gwelyau afonydd Cymru, sy'n cynnwys nifer o borthladdoedd, tebyg i borthladd prysur ac aml-swyddogaeth Aberdaugleddau yn Sir Benfro, a gwahanol farinas.

---

# 1,500MW

Capasiti posibl prosiect Cylch 4 ger arfordir gogledd Cymru

---

# 2.3m tunnell fetrig

Faint o allyriadau CO<sub>2</sub> y gellid ei arbed y flwyddyn, fel canlyniad i'r prosiect Cylch 4 ger arfordir gogledd Cymru

Ar y tir, rydym yn berchen tua 50,000 erw o dir uchel a thir comin yng Nghymru, sydd yn bennaf yn dir garw ar gyfer pori ond sydd hefyd yn gweithredu fel adnodd naturiol pwysig i bawb ei fwynhau yng nghefn gwlad Cymru. Cynyddodd y gwerth a ddynodwyd gan ein priswyr annibynnol ar ein portffolio amaethyddol yng Nghymru yn ystod y flwyddyn o £0.6 miliwn i £2.2 miliwn, yn bennaf fel canlyniad i newid yn y dull prisio ar ein daliadau tir comin yng Nghymru.

Rydym yn gyfrifol am tua 250,000 erw o fuddiannau mwynau yn unig, gydag wyth safle ar hyn o bryd ar brydles i gloddio mwynau.

Yn ychwanegol, rydym yn berchen adneuron aur ac arian, a elwir y Mwyngloddiau Brenhinol. Mae un brydles Mwyngloddiau Brenhinol a dwy brydles Mwyngloddiau Brenhinol yn yr arfaeth. Mae chwe opsiwn Mwyngloddiau Brenhinol ar hyn o bryd ac un opsiwn yn yr arfaeth.

## Cefnogi ynni adnewyddadwy ar y môr

### Gwynt ar y môr

Yn ystod 2020/21, ar draws ein daliadau gwely môr, cynyddodd capasiti gweithredol cronus yn y sector gwynt ar y môr o 9.31GW i 9.61GW (cynnydd o 0.3GW). Yn un o'r ffermydd gwynt gweithredol mwyaf yn y Deyrnas Unedig, dioddefodd fferm wynt Gwynt y Môr ger arfordir gogleddol Cymru fethiant cebl allforio tuag at ddiwedd 2020. Drwy gyfeirio pŵer drwy'r ceblau oedd ar ôl yn yr ased trosglwyddo, bu'n bosibl cadw'r gostyngiad mewn allbwn yn isel. Mae'r ased yn dal i weithredu gyda chapasiti cyfyngedig o tua 82% o gapasiti arferol, nes y cwblheir yr ymchwiliad llawn ac y caiff y cebl allforio ei atgyweirio'n llawn.

Gallwch ddarllen mwy am sector gwynt ar y môr y Deyrnas Unedig yn ein Hadroddiad Gweithredol Gwynt Ar y Môr ar-lein yn: [thecrownestate.co.uk/OSW-Report-2020](http://thecrownestate.co.uk/OSW-Report-2020)

### Cylch 4

Yn ystod 2019, yn dilyn 18 mis o ymgysylltu gyda'r farchnad a rhanddeiliaid, fe wnaethom lansio proses brydlesau arloesol i ddyfarnu hawliau datblygu newydd gwynt ar y môr i gefnogi targedau'r llywodraeth ar gyfer 2030 a thu hwnt. Cafodd chwe phroses eu dewis drwy dendr cystadleuol ym mis Chwefror 2021. Mae canlyniad darpariaethol Cylch 4 yn rhoi potensial ar gyfer hyd at 8GW o gapasiti a maes cryf o ddatblygwyr gyda newydd-ddyfodiaid a'r rhai sydd eisoes yn datblygu.

Mae un o'r chwe phrosiect a ddetholwyd ger arfordir gogledd Cymru i'r de orllewin o Ynys Môn. Y cynigydd llwyddiannus oedd consortiwm o EnBW a BP ac mae gan y prosiect gapasiti potensial o 1500 MW. Byddai hyn yn rhoi digon o bŵer i gyflawni anghenion trydanol tua 1.4 miliwn o gartrefi a sicrhau gostyngiad mewn allyriadau CO<sub>2</sub> o hyd at 2,344,176 tonnall fetrig bob blwyddyn.

Mae'r prosiect hwn, ynghyd â phum prosiect arall a ffafirir, yn awr yn symud i'r asesiad amgylcheddol a elwir y broses Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ac, yn dibynnu ar ei gasgliad, byddwn yn edrych ar ddyfarnu hawliau yn 2022. Mae mwy o fanylion ar Gylch 4 ar-lein yn: [thecrownestate.co.uk/Round4](http://thecrownestate.co.uk/Round4)

Fel canlyniad i Gylch 4 Prydlesau Gwynt Ar y Môr bu cynnydd sylweddol ym mhriant ein portffolio Morol yng Nghymru yn y flwyddyn o £49.2 miliwn i £549.1 miliwn. Fel gyda holl brosiectau Cylch 4 mae risg sylweddol yn ymwneud â'r prosiect Cylch 4 ger arfordir gogledd Cymru, fydd yn arwain at amrywioldeb yn y dyfodol ar gyfer incwm a hefyd werthoedd cyfalaf wrth i'r prosiect symud ymlaen drwy ei gylch oes. Os yw'r prosiect yn symud i'r cyfnod opsiynau, bydd yr elw referniw net cysylltiedig yn dechrau cael ei adennill a'i dalu'n flynyddol i'r Trysorlys, er budd cyllid y genedl. Mae mwy o wybodaeth ar risgiau ac effaith ariannol prosiectau Cylch 4 ar gael ar dudalennau 30-31 ein Hadroddiad Blynyddol diweddaraf ar-lein yn: [thecrownestate.co.uk/Annual-Report-2021](http://thecrownestate.co.uk/Annual-Report-2021)

### Gwynt arnofiol ar y môr

Yn ystod y flwyddyn fe wnaethom lofnodi Cytundeb Prydles ar gyfer prosiect arddangos gwynt arnofiol 96MW arfaethedig Erebus, yn rhan Cymru o'r Môr Celtaidd. Dyma'r tro cyntaf y dyfarnwyd hawliau ar gyfer gwynt arnofiol yng Nghymru, gan nodi carreg filltir ar gyfer sector gwynt ar y môr Cymru.

Mae awydd a gallu sylweddol yn y farchnad i gyrraedd targed Llywodraeth y Deyrnas Unedig o ddarparu 1GW o ynni o wynt arnofiol erbyn 2030, a rydym wedi dechrau gweithio i gynllunio a chyflwyno cyfle prydlesau newydd ar gyfer prosiectau gwynt arnofiol graddfa fasnachol cynnar yn y Môr Celtaidd.

Gallai hyn greu prosiectau o tua 300MW yn nyfroedd Cymru a rhoi cyfleoedd arloesedd a dysgu ar gyfer y gadwyn gyflenwi lleol, gan eu rhoi mewn sefyllfa i ennill mwy o fusnes gartref a thramor wrth i'r diwydiant dyfu i faint masnachol. Bydd y broses brydlesu yn cydbwysu'r cyfle gyda ffynhonnell newydd o drydan glân gyda buddiannau defnyddwyr eraill y môr a gwarchod yr amgylchedd morol. Cefnogir hyn gyda chamau galluogi i'n helpu i ddeall a gweithredu ar ystod eang o ffactorau, yn cynnwys effeithiau posibl ar y sector pysgota, ac i gefnogi rhanbarthau a chymunedau lleol i fanteisio i'r eithaf ar y budd economaidd ohono.

## Tonnau a llanw

Mae gan Gymru hefyd botensial sylweddol ar gyfer ynni tonnau a llanw. Rydym yn parhau i fod â rôl yn cefnogi'r sector hwn drwy ymgysylltu gyda Gweithgor Ynni Morol Cymru, Grŵp Strategol Cynghori ar Ganiatadau Llywodraeth Cymru a thrwy drafodaethau gyda'n cwsmeriaid am y materion sy'n wynebu'r safleoedd a ddyfarnwyd ar brydles iddynt. Rydym yn parhau i gynig cyfle i gael mynediad i wely'r môr ar gyfer prosiectau tonnau hyd at 3MW neu brosiectau ffrwd llanw hyd at 30MW ac mae nifer o brosiectau profi ac arddangos yn targedu dyddiad dechrau o 2023.

### Agregau morol

Ystâd y Goron sy'n gyfrifol am drwyddedu codi agregau lle'r ydym yn rheoli gwely'r môr. Mae agregau morol yn adnodd pwysig i Gymru, gan gyfrif am tua 80% o werthiannau tywod a gro yn Ne Cymru.

Yn 2020, bu gostyngiad bach iawn yng nghyfanswm tunelli metrig yr agregau morol a gyflenwyd i borthladdoedd Cymru i 683,125 tonnall fetrig, i gyd wedi eu codi o ddyfroedd Cymru. Codwyd cyfanswm o 1,380,597 tonnall fetrig o ddyfroedd Cymru, cynnydd o 51% ar y flwyddyn flaenorol.

Mae'r cynnydd hwn yn bennaf fel canlyniad i dair ardal Fforio newydd yn symudodd i fod yn ardaloedd Cynhyrchu yn gynnar yn y flwyddyn flaenorol, a arweiniodd at gynnydd yn y gwerth a roddwyd ar ein portffolio agregau morol yng Nghymru o £10.5 miliwn i £14.9 miliwn.

Fel rhan o'n hymrwymiad i dendro hawliau unigryw yn rheolaidd i ymrwymo i Gytundeb Ymchwilio ac Opsiynau ar gyfer agregau morol, byddwn yn cynnal tendr yn 2021 i helpu sicrhau cyflenwad y dyfodol o'r elfen hollbwysig yma o ddeunyddiau ar gyfer y sector adeiladu ac i gefnogi prosiectau amddiffyn ar addasu arfordirol, yn cynnwys gwrthsefyll newid hinsawdd.

## UCHAFBWyNTIAU CYMRU 2020/21

Yn 2018 fe wnaethom gyflwyno ein System Monitro Electronig (EMS) cenedlaeth nesaf ar ffylid treillio agregau morol y Deyrnas Unedig. Buom yn datblygu'r system hon ymhellach i greu fersiwn arbennig ar gyfer y fflyd treillio contract nad yw'n rheolaidd, a anelwyd at brosiectau addasu arfordirol unigol megis adlenwi traethau a threillio cyfalaf. Cwblhawyd treialon môr ar y system a chafodd ei chyflwyno ddiwedd 2020. Mae ei chyflwyno yn hwyluso monitro treillwyr sy'n gweithredu ar drwyddedau agregau morol ar sail ad-hoc, dros dro pan mae'n anymarferol i ffitio'r system arferol, a bydd yn ein galluogi i sicrhau fod yr holl weithgaredd treillio yn ein dyfroedd yn parhau i gael eu gwneud mewn modd cyfrifol a chydymffurfiol.

### Arfordirol

Yn ystod y cyfnod fe wnaethom ddyfarnu hawliau perchnogion tir dros y blaendraeth yn y Rhyl i Gyngor Sir Ddinbych (yr Awdurdod Gwarchod Arfordirol) i gynorthwyo mewn cynllun amddiffyn llifogydd 600-metr (£27.5 miliwn) ar lan y môr i ddiogelu 1,650 o gartrefi i ddwyrain y dref. Disgwylir y caiff gwaith ei gwblhau yn 2023.

Rhagwelwn y caiff cynlluniau dyframaeth newydd eu hystyried ar draws Cymru. Yn ystod y flwyddyn derbyniwyd ymholiadau yng nghyswllt ffermio cragenni deuglawr (e.e. molysgiaid tebyg i gregyn cylchog, wystrys, cregyn gleision, cregyn bylchog ac yn y blaen) a fflora yn cynnwys morwellt a gwymon.

### Gweithio mewn partneriaeth

Caiff ein hymagwedd at reoli asedau yng Nghymru ei seilio ar ddull gweithredu partneriaeth lle'r ydym yn gweithio gydag ystod amrywiol o sefydliadau. Mae hyn yn cynnwys cydweithio gyda Llywodraeth Cymru, gan ddeall ei nodau a gweithio gyda nifer o adrannau ar flaenoriaethau a rannwn.

Cafodd rhaglen Tystiolaeth a Newid Gwynt Ar y Môr ei lansio'n ffurfiol ym mis Rhagfyr 2020 gyda 26 sefydliad yn llofnodi siarter. Mae'n rhaglen flaengar a arweinir gan Ystâd y Goron mewn partneriaeth gyda'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol ac Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig.

Bydd y rhaglen yn casglu data a thystiolaeth i symud ymlaen gyda ehangu gwynt ar y môr mewn modd cynaliadwy a chydlynol i helpu cyflawni ymrwymadau y Deyrnas Unedig at bontio i ynni carbon isel tra'n cefnogi moroedd glân, iach, cynhyrchiol a biolegol amrywio.

I roi trosolwg a chyfeiriad rydym wedi sefydlu grŵp llywio rhaglen yn cynnwys Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae aelodau'n rhoi eu harbenigedd ac adnoddau i ddynodi, cefnogi a chyflenwi prosiectau ymchwil a data strategol. Dros gyfnod o bum mlynedd, bydd y prosiectau hyn yn rhoi gwybodaeth hanfodol i helpu'r sector i ddeall yn well a mynd i'r afael â'r effeithiau cronuss ar yr amgylchedd a rhyngweithio gyda diwydiannau a gweithgareddau eraill, o amgylch yr arfordir a hefyd ar y môr.

Rydym yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru i gefnogi ei gwaith ar weithredu Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru. Cymerwn ran yn y broses drwy Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Cynllunio Morol.

Mae ein perthynas gyda Cyfoeth Naturiol Cymru yn dal y gryf a gweithiwn mewn partneriaeth lle mae gennym ddaliadau i sicrhau y caiff adnoddau naturiol Cymru eu rheoli mewn modd cynaliadwy ar gyfer yr hirdymor.

Rydym hefyd yn cymryd rhan mewn nifer o weithgoreau a grwpiau ymgynghori. Mae hyn yn cynnwys aelodaeth o Grŵp Gweithredu ac Ymgynghori Morol Cymru a'i Is-grŵp Adferiad Glas a'r Grŵp Llywio Rheoli Rhwydwaith Ardaloedd Gwarchoddedig Morol i sicrhau dull gweithredu cydlynol a rhannu gwybodaeth ar draws y gofod morol.


### Rhannu gwybodaeth

Mae'r Gyfnewidfa Data Morol (MDE) yn archif data rad ac am ddim sydd ar gael i unrhyw un sydd â diddordeb yn y gofod morol. Mae'n storio, rheoli a rhannu data am arolygon ar y môr a gasglwyd gan ein cwsmeriaid. Parhaodd yr MDE i dyfu dros y flwyddyn ddiwethaf ac mae'n awr yn cynnwys dros 16 terabyte o ddata arolygon ar y môr a gasglwyd yn nyfroedd Cymru rhwng 1956 a 2020, yn cynnwys amrywiaeth o ymgyrchoedd arolwg, yn cynnwys monitro amgylcheddol, ymchwiliad safle a data meteorolegol, o sectorau tebyg i wynt ar y môr, ffrwd llanw ac agregau morol. Mae 60% o'r data hwn ar gael i'r cyhoedd ei gyrchu a'i lawrlwytho yn rhad ac am ddim. Cafodd y gronfa ddata ei haildatblygu'n ddiweddar a medrir ei chyrrchu ar-lein yn: [thecrownestate.co.uk/MDE](http://thecrownestate.co.uk/MDE)

Wrth i'r sector ar y môr barhau i dyfu, mae'n bwysig sicrhau y caiff ymchwil a rhannu gwybodaeth ar ynni môr ei gydlynol i helpu adeiladu sector cynaliadwy ar gyfer yr hirdymor. Ynghyd â Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a rhanddeiliaid eraill y diwydiant, rydym yn parhau i gefnogi Rhaglen ar y Cyd y Diwydiant Ffynonellau Adnewyddadwy ar y Môr (ORJIP) ar gyfer Ynni Môr. Daw hyn â'r diwydiant, rheoleiddwyr, ymchwilwyr a chyllidwyr ynghyd fel y gellir trin risgiau caniatâd y sector mewn modd strategol a chydlynol.


Uchafbwyntiau ariannol (heb eu harchwilio)

Refeniw yn ôl gweithgaredd 2020/21



1 Morol	£8.6m
2 Rhanbarthol	£0.1m
<b>Cyfanswm</b>	<b>£8.7m</b>

Gwerth eiddo yn ôl fel ar 31 Mawrth 2021



1 Morol	£600.8m
2 Rhanbarthol	£2.2m
<b>Cyfanswm</b>	<b>£603.0m</b>

Ystâd y Goron yng Nghymru (heb ei gywiro)

	Ystâd y Goron Cymru Blwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2021 £m	Ystâd y Goron Cymru Blwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2020 £m	Ystâd y Goron Cyfanswm Blwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2021 £m	Ystâd y Goron Cyfanswm Blwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2020 £m	Ystâd y Goron Cymru cynnydd/ (gostyngiad) o'r flwyddyn flaenorol %	Ystâd y Goron Cymru Canran o'r Cyfanswm %
<b>Refeniw</b>	<b>8.7</b>	8.8	<b>452.8</b>	476.0	(1.1)	1.9
Gwarged crynswth	8.5	8.4	<b>341.9</b>	389.4	1.2	2.5
<b>Gwerth eiddo</b>	<b>603.0</b>	96.8	<b>13,696.2</b>	12,522.1	522.9	4.4
Buddsoddiadau Cyfalaf	0.1	0.2	<b>78.9</b>	458.5		
Derbynebau Cyfalaf	-	1.7	<b>148.5</b>	356.5		

	Ystâd y Goron Cymru Blwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2021 £m	Ystâd y Goron Cymru Blwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2020 (ailldatgan) £m	Gwerth eiddo yn ôl gweithgaredd £m	Ystâd y Goron Cymru Blwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2021 £m	Ystâd y Goron Cymru Blwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2020 (ailldatgan) £m
<b>Refeniw yn ôl gweithgaredd</b>	<b>£m</b>	<b>£m</b>	<b>Gwerth eiddo yn ôl gweithgaredd</b>	<b>£m</b>	<b>£m</b>
Amaethyddiaeth	0.1	0.1	Amaethyddiaeth	2.2	0.6
Rhanbarthol	0.1	0.1	Rhanbarthol	2.2	0.6
Ceblau/pibelli	1.2	1.1	Ceblau/pibelli	13.5	13.3
Arfordirol	1.7	1.9	Arfordirol	17.6	17.5
Mwynau	0.7	0.9	Mwynau	5.7	5.7
Agregau Morol	1.7	1.4	Agregau Morol	14.9	10.5
Ffynonellau adnewyddadwy	3.3	3.4	Ffynonellau adnewyddadwy	549.1	49.2
<b>Morol</b>	<b>8.6</b>	8.7	<b>Morol</b>	<b>600.8</b>	96.2
<b>Cyfanswm</b>	<b>8.8</b>	8.8	<b>Cyfanswm</b>	<b>603.0</b>	96.8

**Llundain**

Ystâd y Goron  
1 St James's Market  
London  
SW1Y 4AH

T 020 7851 5000

[www.thecrownestate.co.uk](http://www.thecrownestate.co.uk)

**Cyfringau cymdeithasol**

Twitter: @TheCrownEstate

LinkedIn: The Crown Estate

Instagram: @thecrownestate